WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o'r cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol – **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr**

Blwyddyn archwilio: 2019-20

Dyddiad cyhoeddi: Chwefror 2020

Cyfeirnod y ddogfen: 1732A2020-21

Paratowyd y ddogfen hon ar gyfer defnydd mewnol Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Roedd y tîm a gyflawnodd y gwaith yn cynnwys Katherine Simmons, Samantha Clements a Sara-Jane Byrne dan gyfarwyddyd Huw Rees.

# Cynnwys

Mae gan y Cyngor enghreifftiau cadarnhaol o'r modd y mae wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, ond mae'n cydnabod y gallai'r modd y cymhwysir y pum ffordd o weithio gael ei gryfhau ymhellach


Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad 6

Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am anghenion hirdymor ac mae wedi bod yn gweithio tuag at gynllun hirdymor trwy ei Strategaeth Iechyd Gwell Chwaraeon Llwyddiannus. Yn awr mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei gam cynllunio nesaf a sefydlu gweledigaeth a rennir gyda phartneriaid 6

Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio dwyn manteision ataliol trwy'r Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol a cheir nifer o enghreifftiau lle mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, ond mae dibynnu ar gyllid allanol â therfyn amser yn achosi risg i gyflawni parhaus dros yr hirdymor 7

Ceir nifer o enghreifftiau o'r Cyngor yn gweithio'n llwyddiannus ar draws ffiniau sefydliadol; fodd bynnag, ceir cyfleoedd i gysylltu amcanion llesiant perthnasol yn well o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid 9

Mae'r Cyngor yn cyflawni amrywiaeth o weithgarwch cydweithredol ac mae ganddo berthnasoedd sydd wedi datblygu'n dda â phartneriaid sy'n rhoi cymorth i gyflawni'r Rhaglen Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, ond mae cyfleoedd pellach i gryfhau perthnasoedd â phartneriaid allweddol 10

Mae'r Cyngor yn parhau i gynnwys cymunedau yn y broses o ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, ond gallai wneud mwy i gynnwys amrywiaeth lawn ei boblogaeth 12

Rhan Dau: Ymateb y Cyngor 14

Atodiadau

Atodiad 1 – Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio 20

# Adroddiad cryno

## Crynodeb

### Pam y cynhalion ni'r Archwiliad

1 Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) mae'n ofynnol yn statudol i Archwilydd Cyffredinol Cymru (yr Archwilydd Cyffredinol) archwilio cyrff cyhoeddus i asesu i ba raddau y maent wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth:

a. pennu eu hamcanion llesiant; a

b. cymryd camau i'w cyflawni.

2 Mae'r Ddeddf yn diffinio'r egwyddor datblygu cynaliadwy fel gweithredu mewn modd: '…sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau'.

3 Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol ddarparu adroddiad ar ei archwiliadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru o leiaf flwyddyn cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyntaf o'i fath erbyn 2020, cyn etholiadau'r Cynulliad yn 2021.

4 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi cynnal archwiliadau ar draws y 44 o gyrff a gwmpesir gan y Ddeddf i oleuo'i adroddiad i'r Cynulliad Cenedlaethol yn ystod 2018-19 a 2019-20.

5 Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar waith maes a wnaethom yn ystod y cyfnod rhwng mis Gorffennaf 2019 a mis Awst 2019.

6 Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau o'n harchwiliad o'r modd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei raglen allweddol i gefnogi mentrau cymunedol trwy gynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, cam y mae'r Cyngor yn ei gymryd i gyflawni ei Amcanion Llesiant.

7 Mae hefyd yn nodi ymateb cychwynnol y Cyngor i'n canfyddiadau.

### Yr hyn y gwnaethom ei archwilio

8 Fe archwilion ni i ba raddau y mae'r Cyngor yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni ei raglen allweddol i gefnogi mentrau cymunedol trwy gynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol.

9 Er mwyn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy rhaid i gyrff cyhoeddus ystyried y 'ffyrdd o weithio' canlynol:

Arddangosyn 1: y ‘pum ffordd o weithio’

Mae’r tabl isod yn nodi’r ‘pum ffordd o weithio’ a ddiffinnir yn nogfen ‘Hanfodion Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol’[1] Llywodraeth Cymru.

| Y Pum Ffordd o Weithio |
|---|
| **Hirdymor**<br>Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a’r angen am ddiogelu’r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd. |
| **Atal**<br>Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion. |
| **Integreiddio**<br>Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o’r nodau llesiant, ar bob un o’u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| **Cydweithio**<br>Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu’r corff i fodloni ei amcanion llesiant. |
| **Cynnwys**<br>Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni’r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny’n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae’r corff yn ei gwasanaethu. |

10 Canfu ein harchwiliad fel a ganlyn: **Mae gan y Cyngor enghreifftiau cadarnhaol o’r modd y mae wedi cymhwyso’r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gyflawni Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, ond mae’n cydnabod y gallai’r modd y cymhwysir y pum ffordd o weithio gael ei gryfhau ymhellach**.

[1] **Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015 Yr Hanfodion**, Llywodraeth Cymru (2015)

# Adroddiad manwl

## Rhan Un: Canfyddiadau'r Archwiliad

### Mae gan y Cyngor ddealltwriaeth dda am anghenion hirdymor ac mae wedi bod yn gweithio tuag at gynllun hirdymor trwy ei Strategaeth Iechyd Gwell Chwaraeon Llwyddiannus. Yn awr mae angen i'r Cyngor ddatblygu ei gam cynllunio nesaf a sefydlu gweledigaeth a rennir gyda phartneriaid

#### Yr hyn y chwilion ni amdano

11 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am anghenion cyfredol a hirdymor a'r heriau a chyfleoedd cysylltiedig;
- cynllunio dros raddfa amser briodol;
- adnoddau a ddyrennir i sicrhau manteision hirdymor; a
- monitro ac adolygu priodol.

12 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer yr 'hirdymor' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[2]

#### Yr hyn a ganfuom

13 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn casglu ac yn defnyddio amrywiaeth eang o ddata cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o ffynonellau lluosog i oleuo'i waith cynllunio a'i ddealltwriaeth am dueddiadau yn y dyfodol.
- Mae gan y Cyngor ffocws clir ar gyflawni deilliannau hirdymor, fel a ddangosir gan Gynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol 2017-2021 a fframwaith deilliannau'r Bartneriaeth Byw'n Iach.
- Mae'r Cyngor wedi ceisio defnyddio amrywiaeth o fodelau ariannu a chyflawni i gefnogi manteision hirdymor, gan gynnwys trwy'r canlynol:
  - cefnogi hirhoedledd grwpiau/rhwydweithiau cymunedol megis y Rhwydwaith Merched. Mae un o'r rhwydweithiau merched bellach wedi dod yn fudiad elusennol ac mae wedi ymgeisio'n llwyddiannus am gyllid yn ei hawl ei hun; a
  - datblygu ei berthynas â'r Trydydd Sector trwy ddatblygu a chyflawni'r Cynllun Creu Cymunedau Cryf sydd â ffocws mwy hirdymor.

[2] Gweler Atodiad 1

14 Canfuom y maes canlynol ar gyfer gwella:

- Nawr bod ei strategaeth drosfwaol gyfredol ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol 'Iechyd Gwell, Chwaraeon Llwyddiannus 2009-2019' ar fin dod i ben mae angen i'r Cyngor ddatblygu cynllun tymor hwy sy'n seiliedig ar weledigaeth a rennir gyda phartneriaid. Bydd newid i'r modd y darperir cyllid Chwaraeon Cymru yn y dyfodol, gyda'r cyllid yn cael ei ddarparu ar sail ranbarthol yn lle ar sail awdurdodau lleol o 2022, yn cael dylanwad uniongyrchol ar y weledigaeth hon.

## Mae'r Cyngor yn mynd ati'n rhagweithiol i geisio dwyn manteision ataliol trwy'r Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol a cheir nifer o enghreifftiau lle mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, ond mae dibynnu ar gyllid allanol â therfyn amser yn achosi risg i gyflawni parhaus dros yr hirdymor

### Yr hyn y chwilion ni amdano

15 Fe chwilion ni am dystiolaeth o'r canlynol:

- dealltwriaeth drylwyr am natur y broblem a'r math o broblem y gallai'r cam helpu i'w hatal rhag digwydd neu fynd yn waeth;
- adnoddau wedi'u dyrannu i sicrhau y bydd manteision ataliol yn cael eu cyflawni; a
- monitro ac adolygu pa mor effeithiol yw'r cam o ran atal problemau rhag digwydd neu fynd yn waeth.

16 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'atal' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[3]

### Yr hyn a ganfuom

17 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Yn 2017, fe symudodd Gwasanaethau Hamdden, Chwaraeon a Diwylliant y Cyngor o'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant. Roedd y newid hwn yn dangos bod y Cyngor yn cydnabod rôl bwysig gwasanaethau o'r fath o ran cefnogi gweithgareddau sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol. Roedd hyn yn cyd-fynd â chamau gan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i ail-alinio'i strwythurau, a arweiniodd yn eu tro at greu Gwasanaeth Atal a Llesiant.

[3] Gweler Atodiad 1

- Roedd rhan o'r camau i ail-alinio strwythurau'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys ailddiffinio rôl a ffocws y Rheolwr Grŵp Chwaraeon, Chwarae a Llesiant Egnïol i fod y Rheolwr Grŵp Atal a Llesiant. Mae hyn wedi ategu ffocws ar atal a llesiant a gall y Cyngor ddarparu enghreifftiau lle mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol.
- I gydnabod rôl fwy hirdymor ac amlswyddogaethol ei ganolfannau hamdden, mae'r Cyngor wedi eu hailfrandio o ganolfannau 'hamdden' yn 'ganolfannau bywyd' sy'n ymgorffori hybiau llesiant y genhedlaeth nesaf a gwasanaethau eraill a gydleolir megis llyfrgelloedd.[4]
- Mae'r Cyngor wedi dangos dealltwriaeth dda am y blaenoriaethau o ran iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant y mae'n ceisio mynd i'r afael â hwy, yn seiliedig ar wybodaeth ar lefel gymunedol fel a ddangosir yn ei dri chynllun clwstwr ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr.
- Mae'r Cyngor wedi achub ar gyfleoedd i archwilio ffyrdd newydd o weithio mewn modd ataliol a cheisio sicrhau bod pobl yn ymwybodol o'r gwasanaethau ataliol sydd ar gael (e.e. Cydgysylltwyr/Llyw-wyr Cymunedau Lleol, model rhesymeg Pobl Hŷn Penigamp (Super Agers)).
- Mae'r Cyngor yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddatblygu offeryn effaith gydag awdurdodau cyfagos a fydd yn helpu i fesur effaith, rhannu astudiaethau achos a dangos gwersi a ddysgwyd o ran deall achosion sylfaenol.
- Mae'r Cyngor yn cyflawni amrywiaeth o weithgarwch ataliol, er enghraifft mae Pen-y-bont wedi datblygu ei hyfforddiant ac adnoddau Parth Teulu Egnïol (FAZ) i gefnogi dulliau aelwyd gyfan o wella ffyrdd o fyw.[5]

18 Canfuom y maes canlynol ar gyfer gwella:

- Mae bod â thîm sydd wedi'i neilltuo'n sicrhau bod atal yn rhan o ddarparu gwasanaethau craidd. Mae peth o'r chwaraeon a gweithgarwch corfforol y maent yn gyfrifol am eu darparu yn cael eu hariannu â grantiau allanol â therfyn amser sy'n achosi risg i sicrhau manteision ataliol tymor hwy. Er ein bod yn nodi nad yw hyn dan reolaeth y Cyngor yn gyfan gwbl mae cyfleoedd i fynd ati ar adeg gynnar i archwilio opsiynau ariannu eraill yn y dyfodol a'r goblygiadau pe bai'r cyllid yn dod i ben i oleuo penderfyniadau ariannu a blaenoriaethau yn y dyfodol. Er enghraifft, gyda phartneriaid, cymunedau a chyda'r trydydd sector trwy lwybrau'r Gronfa Gofal Integredig.

[4] Mae cynllun corfforaethol y Cyngor yn nodi cam y Cyngor i leihau'r galw trwy raglenni cymorth cynnar ac ymyrryd yn gynnar wedi'u targedu trwy roi cymorth i ddatblygu cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a llesiant cymunedol ar gyfer eu trigolion gyda phartneriaid ym maes iechyd.

[5] Rhaglen yw FAZ sy'n annog plant a'u teuluoedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr i fwynhau ffyrdd o fyw sy'n hwyl, yn iach ac yn egnïol gyda'i gilydd. Mae'r rhaglen yn cael ei rhoi ar waith gan y Cyngor mewn partneriaeth gydag ysgolion cynradd lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, Create Development a Chwaraeon Cymru.

## Ceir nifer o enghreifftiau o’r Cyngor yn gweithio’n llwyddiannus ar draws ffiniau sefydliadol; fodd bynnag, ceir cyfleoedd i gysylltu amcanion llesiant perthnasol yn well o fewn y Cyngor a chyda phartneriaid

### Yr hyn y chwilion ni amdano

19 Fe chwilion ni am dystiolaeth o ystyried:

- sut y gallai’r cam hwn gyfrannu at y saith nod llesiant cenedlaethol;
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant a blaenoriaethau ehangach y Cyngor; a
- sut y bydd cyflawni’r cam hwn yn effeithio ar amcanion llesiant cyrff cyhoeddus eraill.

20 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer ‘integreiddio’ yr ydym wedi’u hadnabod a’u defnyddio fel rhan o’r archwiliad hwn.[6]

### Yr hyn a ganfuom

21 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Roedd y Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol wedi’i fwriadu i gyflawni deilliannau o ran iechyd a gellir dangos ei fod yn cyfrannu at y nodau llesiant cenedlaethol Cymru Iachach. Mae’r Cyngor hefyd wedi ystyried cysylltiadau ag agweddau eraill ar lesiant, megis yr amgylchedd a’r economi, ond mae cyfleoedd i gryfhau hyn.
- Gwahoddir y Rheolwr Grŵp Atal a Llesiant i holl weithgorau perthnasol y BGC megis Heneiddio’n Dda ac mae’n cyfrannu at ffocws cyfunol tîm rheoli’r gyfarwyddiaeth ar atal a llesiant cymunedau.
- Ceir cysylltiadau cryf rhwng y gwasanaeth Atal a Llesiant a’r gwasanaeth Addysg o ran cyflawni prosiectau a gweithgareddau cynllunio ysgolion (megis FAZ).

22 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Pan fydd y Cyngor yn diweddaru ei Gynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol a’i gynllun hirdymor ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, mae cyfleoedd i gynnwys rhannau eraill o’r Cyngor ac ystyried cyfleoedd ychwanegol i gysylltu gwahanol agendâu. Er enghraifft, mae staff sy’n cefnogi cyfleoedd i wella cyflogadwyedd yn cydleoli yn yr hwb llesiant newydd yng Nghanolfan Bywyd Pen-y-bont ac mae hyn yn dwyn goblygiadau cadarnhaol ar gyfer y nodau datblygu economaidd.

[6] Gweler Atodiad 1

- Mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i alinio rhaglenni Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yn well â rhaglenni 'Teithio Llesol' a 'llwybrau diogel'. Y camau nesaf fydd canfod sut y gellir cydblethu Teithio Llesol â rhaglenni chwaraeon a gweithgarwch a gaiff eu rhedeg gan gymunedau a phartneriaid yn awr ac yn y dyfodol.
- Gallai'r Cyngor ddiffinio'n fwy eglur sut y mae'r Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol yn cysylltu ag amcanion llesiant sefydliadau eraill a'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

## Mae'r Cyngor yn cyflawni amrywiaeth o weithgarwch cydweithredol ac mae ganddo berthnasoedd sydd wedi datblygu'n dda â phartneriaid sy'n rhoi cymorth i gyflawni'r Rhaglen Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, ond mae cyfleoedd pellach i gryfhau perthnasoedd â phartneriaid allweddol

### Yr hyn y chwilion ni amdano

23 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi ystyried sut y gallai weithio gydag eraill i gyflawni'r cam (i gyflawni ei amcanion llesiant, neu gynorthwyo corff arall i gyflawni ei amcanion llesiant);
- yn cydweithio'n effeithiol i gyflawni'r cam; ac
- yn monitro ac yn adolygu a yw cydweithio'n ei helpu ef neu'n helpu ei randdeiliaid i gyflawni amcanion llesiant.

24 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cydweithio' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[7]

### Yr hyn a ganfuom

25 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Rhoddodd y Cyngor ei swyddogaeth Rheoli Canolfannau Hamdden ar gontract allanol i Halo, elusen gofrestredig a menter gymdeithasol, yn 2012. Mae'r trefniant hwn wedi esblygu'n 'Bartneriaeth Byw'n Iach' lle mae Halo a'r Cyngor yn cydweithio'n agos i gyrraedd yr un nodau. Er enghraifft bydd Halo yn mynd ati i geisio hyrwyddo gweithgareddau ataliol trwy gydweithio'n agos gydag ysgolion a chyda grwpiau cymunedol/grwpiau defnyddwyr.
- Mae gan y Cyngor ystod o weithgareddau cydweithredol eraill i ategu'r Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, a berchnogir ac a gyflawnir gan bartneriaid mewnol ac allanol. Mae perthnasoedd â phartneriaid yn gadarnhaol ac wedi datblygu'n dda. Mae partneriaid allweddol yn cynnwys

[7] Gweler Atodiad 1

Cymdeithas Tai Cymoedd i'r Arfordir, Coleg Pen-y-bont, Awen (Contract Gwasanaethau Diwylliannol), Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr a Chwaraeon Cymru.

- Mae'r Cyngor a phartneriaid yn parhau i gydweithio i adnabod ffyrdd o gyflawni arbedion effeithlonrwydd a chyflawni strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor. Er enghraifft, mae'r Cyngor yn cydweithio gydag Awen a Halo i gyflawni arbedion effeithlonrwydd fel rhan o strategaeth ariannol tymor canolig y Cyngor.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ffocws seiliedig ar le ar gyfer cydweithio gan edrych ar gymunedau a sefydlu partneriaethau/rhwydweithiau lleol i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r rhaglen 'OlympAge'[8] yn enghraifft dda o weithio trawsadrannol, gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r tîm Atal a Llesiant yn cydweithio i gynorthwyo oedolion hŷn i fyw bywydau mwy egnïol ac iach. Dechreuodd y rhaglen yn wreiddiol mewn lleoliadau gofal dydd a gofal preswyl, ond mae wedi parhau i dyfu. Bellach ceir rhaglenni sy'n gysylltiedig â hybiau cymunedol, rhaglenni ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, gweithgareddau mewn canolfannau cymunedol a lleoliadau hamdden/diwylliannol, a lleoliadau gofal annibynnol.
- Mae'r Cyngor yn adnabod ac yn ymateb i faterion a godir gan bartneriaid i ganfod bylchau o ran sgiliau e.e. mae staff HALO yn dilyn rhaglen hyfforddi ar ddementia i'w cynorthwyo yn y fenter nofio ar gyfer pobl â dementia.
- Mae'r Cyngor yn mesur effeithiolrwydd ei waith ar y cyd gyda Halo Leisure a'r deilliannau a gyflawnir gan y gwaith hwnnw a'r Cyngor oedd y trefniant cleient/contractwr cyntaf yng Nghymru i ymgeisio am y wobr Quest for Active Communities. Fe gyflawnodd y sgôr uchaf dros y DU gyfan ar gyfer y wobr y llynedd, sef 2018-19[9]. Mae'r Cyngor wedi defnyddio'r fframwaith Quest i hunanasesu ei ddarpariaeth datblygu chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Ers pontio i'r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol newydd ym mis Ebrill 2019, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i brosiect cydweithredol ar draws rhanbarth Cwm Taf gyda chynghorau bwrdeistref sirol Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. Roedd eu cynnig i'r Gronfa Iach ac Egnïol yn llwyddiannus ac mae wedi darparu ffocws a hwb ymlaen i'r tri chyngor ddod ynghyd mewn ffordd ystyrlon i gyflawni prosiect chwaraeon/gweithgarwch corfforol rhanbarthol. Mae'r tri chyngor yn archwilio posibiliadau pellach i weithio'n rhanbarthol.

[8] Cynllun a ariennir yw OlympAge, a arweiniodd at hyfforddi staff iechyd a gofal cymdeithasol a staff hamdden ynghyd ag aelodau'r fforwm pobl hŷn i ddarparu gweithgareddau dan do ac awyr agored ar gyfer pobl hŷn.

[9] Offeryn ar gyfer gwella'n barhaus yw Quest, sydd wedi'i fwriadu'n bennaf ar gyfer rheoli cyfleusterau hamdden a gweithgarwch datblygu chwaraeon. Mae'n diffinio safonau ac arfer da yn y diwydiant ac yn rhoi anogaeth ar gyfer datblygu'n barhaus a darparu o fewn fframwaith rheoli sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid.

26 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen am fwy o ymwneud gan bartneriaid yn ystod y cam cynllunio a gwerthuso gwasanaethau wrth gyflawni'r Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol i ddangos a chynyddu i'r eithaf fanteision cydweithio. Bydd hyn yn rhan o'r Cynllun wedi'i ddiweddaru.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen rhagor o waith o hyd i adeiladu ar berthnasoedd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Trydydd Sector.

## Mae'r Cyngor yn parhau i gynnwys cymunedau yn y broses o ddatblygu a chyflawni ei Gynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol, ond gallai wneud mwy i gynnwys amrywiaeth lawn ei boblogaeth

### Yr hyn y chwilion ni amdano

27 Fe chwilion ni am dystiolaeth bod y Cyngor:

- wedi adnabod pwy y mae angen iddo'u cynnwys wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi mynd ati mewn ffordd effeithiol i gynnwys rhanddeiliaid wrth ddylunio a chyflawni'r cam;
- wedi defnyddio canlyniadau cynnwys pobl i ddylanwadu ar ddatblygu a chyflawni'r cam; ac
- wedi ceisio dysgu gwersi a gwella'i ddull o gynnwys.

28 Cafodd ein harchwiliad ei oleuo hefyd gan y dangosyddion cadarnhaol ar gyfer 'cynnwys' yr ydym wedi'u hadnabod a'u defnyddio fel rhan o'r archwiliad hwn.[10]

### Yr hyn a ganfuom

29 Canfuom y cryfderau canlynol:

- Mae'r gwasanaeth Atal a Llesiant yn goruchwylio'r trefniant llywodraethu ar gyfer Rhwydwaith Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Sirol (C-Span). Mae'r Rhwydwaith Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Sirol yn cynnwys ystod o bartneriaid gan gynnwys y Rhwydwaith Merched 'Girl Power', Heneiddio'n Dda, Rhwydwaith Chwaraeon Ieuenctid Anabl Pen-y-bont ar Ogwr a'r Rhwydwaith Atal Tlodi. Mae'r grŵp rhwydwaith ymbarél hwn yn galluogi'r Cyngor i ymgysylltu ynghylch agweddau ar y Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol.

[10] Gweler Atodiad 1

- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu ystod o ddulliau ar gyfer ymgysylltu â phobl leol ynghylch yr asesiad o ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae, er enghraifft cynnwys ysgolion uwchradd i adnabod ffactorau risg a ffyrdd o fyw pobl ifanc a rhwystrau i gyfranogi mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Cynlluniau Llesiant Ysgolion yn seiliedig ar ddata/mewnwelediad sy'n gysylltiedig â grwpiau demograffig. Er enghraifft, fe gyfranogodd Pen-y-bont yn yr Arolwg Cenedlaethol o Chwaraeon Ysgol gan ennyn ymgysylltiad 24 o ysgolion cynradd a naw ysgol uwchradd. Roedd 5,350 o ymatebwyr. Mae'r rhaglen Pobl Hŷn Penigamp (Super-Agers) yn enghraifft gadarnhaol o ddull cydgynhyrchiol trwy rymuso pobl hŷn i bennu eu gweithgareddau eu hunain.
- Mae'r Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol yn targedu grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a grwpiau agored i niwed.
- Datblygir gweithgarwch cyfrwng Cymraeg trwy bartneriaethau gyda'r Urdd/Menter Bro Ogwr.
- Mae cynllunio ar gyfer Creu Cymunedau Cryf wedi ennyn ymgysylltiad ystod ehangach o fudiadau'r Trydydd Sector.

30 Canfuom y meysydd canlynol ar gyfer gwella:

- Er bod y Cyngor a'i bartneriaid yn casglu llawer o ddata o arolygon ac ymgyngoriadau, mae'n cydnabod y gallai wella cynrychiolaeth o blith defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu a chyflawni gweithgareddau'r Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwaith pellach i ennyn ymgysylltiad grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys ystyried dulliau ymgysylltu, amlder a mecanweithiau adborth.
- Mae'r Cyngor yn cydnabod y gallai wella sut y mae'n cyfleu ei agenda ataliol i'r cyhoedd. Er enghraifft, trwy farchnata a hyrwyddo gwell i gynyddu lefelau ymwybyddiaeth a sicrhau defnydd cyson o iaith/labelu prosiectau/gweithgareddau'n gyson.

# Adroddiad manwl

## Rhan Dau: Ymateb y Cyngor

| Maes ar gyfer Datblygu | Tasgau Allweddol | Canlyniadau Allweddol | Cyfrifol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| Bydd y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid ac yn datblygu cynlluniau **tymor hwy**, cynaliadwy ar gyfer seilwaith, gwasanaethau a chyfleoedd chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol. | Bydd y cynlluniau Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol yn gyson â'r nodau llesiant ar gyfer Cymru, y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru a blaenoriaethau corfforaethol CBS Pen-y-bont ar Ogwr, yn enwedig datblygu cymunedau iachach a chryf. | Cynllun Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol newydd yn cael ei ddatblygu ar gyfer 2021-2024 | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant | Ionawr 2021 |
| | Bydd dangosyddion deilliant allweddol ar gyfer y boblogaeth yn cael eu sefydlu i ganolbwyntio ar flaenoriaethau a thracio cynnydd. | Cerdyn Sgorio Perfformiad wedi'i sefydlu gan gydnabod dangosyddion llesiant | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant (cytundeb gyda phartneriaid) | Medi 2020 |
| | Bydd adroddiadau blynyddol i'r swyddogaeth Graffu ar yr effaith ar agendâu atal a chyfraniad at lesiant. | Adroddiad craffu blynyddol ar atal a llesiant wedi'i integreiddio mewn amserlenni | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant | Medi 2020 |
| | Bydd y Cyngor yn diweddaru'r Cynllun 'Iechyd Gwell, Chwaraeon Llwyddiannus' o ran y trefniadau tymor hwy ar gyfer cynllunio a rheoli asedau. (Byddai hyn yn cynnwys meysydd chwarae, pafiliynau, defnydd o ysgolion gan y gymuned, hybiau hamdden/llesiant a'r amgylchedd naturiol.) | Cynllun 'Iechyd Gwell, Chwaraeon Llwyddiannus' hirdymor (neu gynllun cyfatebol sy'n gysylltiedig â'r themâu cymunedau iach a chryf) ar gyfer 2021-2035 | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant | Medi 2021 |

| Maes ar gyfer Datblygu | Tasgau Allweddol | Canlyniadau Allweddol | Cyfrifol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd y Cyngor yn gyfranogwr gweithredol mewn dulliau ailfodelu rhanbarthol sy’n gysylltiedig ag iechyd, gofal cymdeithasol, chwaraeon a gweithgarwch corfforol. | Penawdau telerau wedi’u sefydlu mewn perthynas â’r Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol sy’n cael ei datblygu trwy Chwaraeon Cymru | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant (cymorth trwy’r rheolwyr llesiant) | Ebrill 2021 |
| Bydd y Cyngor yn llywio dull mwy cysylltiedig ac **integredig** o gynllunio, cyflawni ac effaith buddsoddiadau ac adnoddau chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol. | Bydd gwaith cynllunio Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol yn cynrychioli dull ar draws Cyfarwyddiaethau ac ‘Un Cyngor’ o wella gweithgarwch a llesiant y boblogaeth. | Strwythurau gweithgorau corfforaethol wedi’u gwerthuso a chysylltiadau/cyfraniadau wedi’u gwneud – Cynllun “Pen-y-bont ar Ogwr Egnïol” newydd yn ei le | Rheolwyr llesiant – (byw’n iach, pobl ifanc heini a chymunedau cysylltiedig) | Medi 2020 |
| | Datblygu ffocws penodol ar gynyddu lefelau gweithgarwch yn yr amgylchedd naturiol trwy gydweithio gyda phartneriaid gan gynnwys gweithgarwch pob dydd (e.e. teithio llesol). | Cynllun gweithredu wedi’i sefydlu gyda phartneriaid sy’n gysylltiedig â Chynllun Llesiant/BGC Pen-y-bont ar Ogwr | Rheolwr Grŵp – yr economi ac adnoddau naturiol<br><br>Rheolwr llesiant – cymunedau cysylltiedig | Ebrill 2021 |
| | Bydd y Cyngor yn cydnabod cyflawniadau cydweithredol trwy weithio mewn partneriaeth ac yn rhannu manylion effaith trwy rannu arfer gorau a digwyddiadau. | Mynd ati’n flynyddol i lunio adroddiad blynyddol ar berfformiad a chydnabod partneriaid.<br>Datblygu dulliau sy’n llywio dysgu a mewnwelediad rhwng partneriaid a dulliau seiliedig ar dystiolaeth. | Rheolwyr llesiant – (byw’n iach, pobl ifanc heini a chymunedau cysylltiedig)<br><br>Partneriaid cymunedol. | Mehefin 2021 |

| Maes ar gyfer Datblygu | Tasgau Allweddol | Canlyniadau Allweddol | Cyfrifol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | | (Integreiddio rolau a meysydd ffocws yng nghynlluniau CBS Pen-y-bont ar Ogwr a phartneriaid) | | |
| | Bydd y Cyngor yn sicrhau yr ymgysylltir ac yr ymgynghorir yn llawn â phartneriaid a rhanddeiliaid mewn dulliau cynllunio tymor hwy. | Arolygon adborth partneriaid yn gysylltiedig â'r broses asesu ar gyfer Quest a chynllunio ar gyfer gwella.<br>Ymgysylltu'n ffurfiol â phartneriaid ynghylch blaenoriaethau strategol a thymor hwy allweddol. | Rheolwr llesiant (byw'n iach) a rheolwr Partneriaeth Halo | Ebrill 2021 |
| Bydd y Cyngor yn defnyddio'i berthnasoedd, partneriaethau a rhwydweithiau mewnol ac allanol i sicrhau bod cynlluniau a chamau gweithredu arfaethedig yn **cynnwys** rhanddeiliaid a phartneriaid, yn cael eu deall ac yn diwallu anghenion y gymuned. | Cynllunio gwaith ymgynghori ac ymgysylltu i gefnogi'r broses cynllunio strategol ar gyfer chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol yn y tymor hwy. | Cynllun ymgynghori wedi'i sefydlu mewn perthynas â'r camau nesaf lle mae 'Iechyd Gwell, Chwaraeon Llwyddiannus' yn y cwestiwn | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant.<br><br>Swyddog ymgynghori ac ymgysylltu CBS Pen-y-bont ar Ogwr | Medi 2020 |
| | Bydd y Cyngor yn cynyddu i'r eithaf gyrhaeddiad a gwerth ei ddulliau ymgysylltu â'r cyhoedd trwy ddefnyddio'i bartneriaethau sefydledig (e.e. Bavo, Awen, Halo) a chysylltiadau ehangach gydag asiantaethau iechyd a gofal cymdeithasol. | Partneriaid i gymeradwyo'r cynllun ymgynghori a'r dull a ddefnyddir. Cymorth ymarferol i godi ymwybyddiaeth. | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant | Tachwedd 2020 |
| | Bydd y Cyngor yn cynorthwyo'i staff a phartneriaid i fynd ati bob yn dipyn i wella'i ddealltwriaeth am gyd-ddylunio a chydgynhyrchu a'i ddefnydd o'r rhain. | Hyfforddiant Datblygu Cymunedol Seiliedig ar Asedau a datblygu rhwydwaith Cydgynhyrchu i ennyn ymgysylltiad rheolwyr, staff a phartneriaid CBS Pen-y-bont ar Ogwr | Rheolwr Llesiant – Cymunedau Cysylltiedig | Mehefin 2021 |

| Maes ar gyfer Datblygu | Tasgau Allweddol | Canlyniadau Allweddol | Cyfrifol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd y Cyngor yn rhannu canfyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid, yn enwedig lle gall wella gwasanaethau a chyfleoedd i ddiwallu anghenion. | Rhannu ymatebion i fod yn rhan integredig o gynllunio ymgysylltu | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant<br><br>Rheolwr ymgynghori ac ymgysylltu CBS Pen-y-bont ar Ogwr | Medi 2021 |
| Bydd y Cyngor yn datblygu dulliau arloesol o fynd ar drywydd **atal** a fydd yn cyfiawnhau ac yn sicrhau buddsoddiad craidd ac allanol mewn gwasanaethau, cyfleusterau a chyfleoedd sy'n cynnal neu'n gwella llesiant. | Bydd y Cyngor yn asesu'r risgiau a'r cyfleoedd sy'n bodoli mewn perthynas ag adnoddau allanol sy'n cefnogi ein ffocws ar atal | Bydd hyn yn cael ei wneud fel rhan o'r asesiad risg corfforaethol ar fuddsoddiadau allanol | Cyllid Corfforaethol | Medi 2020 |
| | Bydd y Cyngor yn cynyddu ei ffocws a'i allu i sicrhau buddsoddiad allanol o ystod eang o ffynonellau (e.e. iechyd, gofal cymdeithasol, tlodi, mudiadau elusennol sy'n gysylltiedig â phartneriaethau). | Strategaeth targedu buddsoddiad allanol ar gyfer cyfleusterau a gwasanaethau chwaraeon, hamdden a gweithgarwch corfforol. (I'w integreiddio yn y cynllun Iechyd Gwell, Chwaraeon Llwyddiannus) | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant | Ebrill 2021 |
| | Bydd y Cyngor yn glir ynghylch gwerth buddsoddiadau llai a all fod yn arloesol o ran diwallu anghenion neu reoli'r galw ac a all dyfu yn unol â'r anghenion gan gynnwys yn rhanbarthol. | Gwaith gwerthuso effaith a digwyddiadau rhannu arfer gorau yn cael eu sefydlu gyda phartneriaid/rhwydweithiau | Rheolwyr llesiant – (Byw'n Iach, Pobl Ifanc Heini a Chymunedau Cysylltiedig) | Ebrill 2021 |

| Maes ar gyfer Datblygu | Tasgau Allweddol | Canlyniadau Allweddol | Cyfrifol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd y Cyngor yn gwella'i allu i werthuso cost-effeithiolrwydd gan ddefnyddio dulliau sydd â sylfaen dystiolaeth sefydledig. | Ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth i fod yn adnabyddadwy ac yn gysylltiedig â chardiau sgorio/adroddiadau craffu<br><br>Dealltwriaeth/gwybodaeth staff am Fudd Cymdeithasol o fuddsoddi, osgoi costau ac ati yn cael eu datblygu | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant<br><br>Cymorth datblygu'r gweithlu allanol | Ebrill 2021 |
| | Bydd y Cyngor yn datblygu dulliau newydd, gan gydnabod pwysau ariannol, i weithio'n wahanol gyda phartneriaid a chymunedau gan gynnwys trefniadau ar y cyd i ddarparu cyllid neu adnoddau. | Dewislen o fodelau buddsoddi a risgiau ar y cyd wedi'i sefydlu – mae'n cynnwys mentrau cydweithredol, adnoddau cyfunol, dulliau partneriaeth a.y.b. | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant<br><br>Partneriaethau Sefydledig<br><br>Cyllid Corfforaethol | Medi 2021 |
| Bydd y Cyngor yn mynd ati ymhellach i ddatblygu ei ddull **cydweithredol** gyda phartneriaid ffurfiol a'r gymuned ehangach, gan gydnabod pwysigrwydd hyn i gynaliadwyedd. | Bydd y Cyngor yn defnyddio fframweithiau ansawdd a gwella cenedlaethol i fynd ati ar y cyd i wella'r hyn sydd ar gael yn lleol gyda'n partneriaid. | Adroddiadau dilysu allanol Cymunedau Egnïol Quest a Chyfleusterau Quest | CBS Pen-y-bont ar Ogwr, HALO Leisure a phartneriaid cymunedol | Tachwedd 2020 a phrosesau adolygu blynyddol |

| Maes ar gyfer Datblygu | Tasgau Allweddol | Canlyniadau Allweddol | Cyfrifol | Amserlenni |
|---|---|---|---|---|
| | Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar wella ymddiriedaeth a dealltwriaeth ymhlith partneriaid a rhanddeiliaid i wella perthnasedd cynlluniau a blaenoriaethau lleol. | Monitro lefelau ymgysylltiad partneriaid/rhanddeiliaid â chynllunio ar gyfer gwella | Rheolwr Llesiant – Byw'n Iach a rheolwyr partneriaeth HALO | Ebrill 2021 a rhaglenni ymgysylltu blynyddol |
| | Bydd y Cyngor yn sicrhau trwy ei broses cynllunio cydraddoldebau strategol bod anghenion a dyheadau grwpiau a dargedir yn cael eu cydnabod a'u bodloni. | Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-2024 yn cynnwys ffocws ar gyfleoedd hamdden a diwylliannol. | Swyddog ymgynghori ac ymgysylltu CBS Pen-y-bont ar Ogwr | Medi 2020 |
| | Bydd y Cyngor yn mynd ati ymhellach i ddatblygu ei ddefnydd o rwydweithiau cymunedol sy'n cynrychioli grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol (e.e. menywod a merched, pobl anabl, oedolion hŷn). | Bydd strwythur y Rhwydwaith Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol Sirol yn fwy gweithredol ac yn cefnogi gwaith cynllunio a datblygu<br>(Ffocws ar gefnogi'r rhai llai egnïol gan gydnabod cyfnodau gwahanol mewn bywyd a phrofiadau cadarnhaol i bawb.) | Rheolwyr Llesiant – Byw'n Iach a Phobl Ifanc Heini | Ebrill 2022 |
| | Bydd y Cyngor yn cydweithio ar lefel leol a rhanbarthol gyda phartneriaid gan gynnwys rhannu arfer a gwersi a mewnwelediad. | Dull partneriaeth ar draws Cwm Taf Morgannwg (gan gynnwys Merthyr a RhCT) yn cael ei ddatblygu ymhellach | Rheolwr Grŵp – Atal a Llesiant | Medi 2021 |

# Atodiad 1

## Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

Mae'r tabl isod yn nodi 'dangosyddion cadarnhaol' ar gyfer pob un o'r pum ffordd o weithio yr ydym wedi'u hadnabod a byddwn yn eu defnyddio i helpu i oleuo ein hasesiadau sy'n ystyried i ba raddau y gall cyrff fod yn cymhwyso'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy (EDC). Nid ydym yn bwriadu defnyddio'r dangosyddion fel 'rhestr wirio'. Dylid ystyried mai 'dangosyddion' ydynt a fydd yn ein helpu i ddod i gasgliadau, yn hytrach na 'phenderfynyddion' sy'n dynodi i ba raddau y mae corff yn gweithredu yn unol â'r EDC wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant.

Arddangosyn 2: Dangosyddion Cadarnhaol o'r Pum Ffordd o Weithio

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio hirdymor yn llawn? |
| --- |
| • Ceir dealltwriaeth glir am yr hyn y mae 'hirdymor' yn ei olygu yng nghyd-destun y Ddeddf.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni'r amcan(ion) llesiant a chyfrannu at eu gweledigaeth hirdymor.<br>• Maent wedi dylunio'r cam i gyflawni manteision yn y tymor byr neu ganolig, y ceir cydbwysedd rhyngddynt a'r effaith dros yr hirdymor (yng nghyd-destun y prosiect).<br>• Maent wedi dylunio'r cam yn seiliedig ar ddealltwriaeth soffistigedig am yr angen a phwysau yn awr ac yn y dyfodol, gan gynnwys dadansoddiad o dueddiadau'r dyfodol.<br>• O ganlyniad, ceir dealltwriaeth gynhwysfawr am risgiau a chyfleoedd yn awr ac yn y dyfodol.<br>• Mae adnoddau wedi cael eu dyrannu i sicrhau bod manteision hirdymor yn ogystal â manteision byrdymor yn cael eu cyflawni.<br>• Ceir ffocws ar gyflawni deilliannau, gyda cherrig milltir/camau cynnydd wedi'u nodi lle bydd deilliannau'n cael eu cyflawni dros yr hirdymor.<br>• Maent yn agored i ffyrdd newydd o wneud pethau a allai helpu i ddwyn manteision dros yr hirdymor.<br>• Maent yn gwerthfawrogi gwybodaeth ac yn mynd ar drywydd dulliau seiliedig ar dystiolaeth. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cymhwyso'r ffordd o weithio ataliol yn llawn?** |
| • Mae'r corff yn ceisio deall achosion sylfaenol problemau fel bod modd mynd i'r afael â chylchoedd negyddol a heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.<br>• Mae'r corff yn ystyried heriau o safbwynt systemau cyfan, gan gydnabod a gwerthfawrogi'r manteision hirdymor y gallant eu dwyn i bobl a lleoedd.<br>• Mae'r corff yn dyrannu adnoddau i gamau ataliol sy'n debygol o gyfrannu at ddeilliannau gwell a defnydd gwell o adnoddau dros y tymor hwy, hyd yn oed lle gallai hyn gyfyngu ar y gallu i ddiwallu rhai anghenion byrdymor.<br>• Ceir trefniadau penderfynu ac atebolrwydd sy'n cydnabod gwerth camau ataliol ac yn derbyn gostyngiadau byrdymor mewn perfformiad ac adnoddau wrth fynd ar drywydd gwelliannau a ragwelir mewn deilliannau ac yn y defnydd o adnoddau. |

| Beth fyddai'n dangos bod corff yn defnyddio dull 'integredig'? |
| --- |
| • Mae unigolion ar bob lefel yn deall eu cyfraniad at wireddu'r weledigaeth a'r amcanion llesiant.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn deall yr hyn y mae gwahanol rannau o'r sefydliad yn ei wneud ac yn mynd ati mewn modd rhagweithiol i geisio cyfleoedd i weithio ar draws ffiniau sefydliadol. Caiff hyn ei efelychu yn eu gwaith gyda chyrff cyhoeddus eraill.<br>• Mae unigolion ar bob lefel yn cydnabod y dibyniaethau traws-sefydliadol sy'n rhan o wireddu'r uchelgais a chyflawni'r amcanion.<br>• Ceir diwylliant agored lle mae gwybodaeth yn cael ei rhannu.<br>• Ceir dealltwriaeth sydd wedi datblygu'n dda am y modd y mae'r amcanion llesiant a'r camau i'w cyflawni'n effeithio ar gyrff eraill yn y sector cyhoeddus.<br>• Mae unigolion yn gweithio mewn modd rhagweithiol ar draws ffiniau sefydliadol i wneud y cyfraniad mwyaf posibl ar draws y nodau llesiant a lleihau effeithiau negyddol i'r eithaf.<br>• Mae trefniadau llywodraethu, strwythurau a phrosesau'n cefnogi hyn, ac felly hefyd ymddygiadau. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cydweithio'n effeithiol ?** |
| • Mae'r corff yn canolbwyntio ar le, cymuned a deilliannau yn hytrach na ffiniau sefydliadol.<br>• Mae gan y corff ddealltwriaeth dda am amcanion partneriaid a'u cyfrifoldebau, sy'n helpu i lywio gweithgarwch cydweithredol.<br>• Mae gan y corff berthnasoedd cadarnhaol ac aeddfed â rhanddeiliaid, lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Mae'r corff yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau y gall yr holl bartneriaid eu gwneud.<br>• Mae'r corff yn ceisio canfod prosesau cyffredin a ffyrdd cyffredin o weithio, lle y bo'n briodol. |
| **Beth fyddai'n dangos bod corff yn cynnwys pobl yn effeithiol ?** |
| • Deall pwy y mae angen eu cynnwys a pham.<br>• Myfyrio pa mor dda y mae'r anghenion a'r heriau a wynebir gan y bobl hynny'n cael eu deall ar hyn o bryd.<br>• Gweithio mewn modd cydgynhyrchiol, gan weithio gyda rhanddeiliaid i ddylunio a chyflawni.<br>• Ystyried barn rhanddeiliaid fel ffynhonnell wybodaeth hanfodol a fydd yn helpu i gyflawni deilliannau gwell.<br>• Sicrhau bod yr amrywiaeth lawn o randdeiliaid yn cael eu cynrychioli a'u bod yn gallu cymryd rhan.<br>• Bod â pherthnasoedd aeddfed, seiliedig ar ymddiriedaeth â'i randdeiliaid lle ceir deialog barhaus a lle caiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd agored a thryloyw.<br>• Sicrhau bod rhanddeiliaid yn deall effaith eu cyfraniad.<br>• Ceisio adborth gan randdeiliaid allweddol a ddefnyddir i helpu i ddysgu a gwella. |

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru